# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 5 Chwefror 2019

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5423

# 187(v3)

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14.20

## 3 Datganiad gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol: Digartrefedd a Chysgu Allan

Dechreuodd yr eitem am 14.37

## 4 Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd: Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Fodel Buddsoddi Cydfuddiannol Cymru

Dechreuodd yr eitem am 15.28

## 5 Dadl: Dyfodol Rheilffordd Cymru

Dechreuodd yr eitem am 16.04

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**NDM6954** – Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn siomedig yn y tanfuddsoddi hanesyddol gan Lywodraeth y DU yn seilwaith rheilffyrdd Cymru a chyfleoedd a gollwyd yn ddiweddar i wella capasiti y seilwaith strategol yng Nghymru.

2. Yn tynnu sylw at y gwaith, sydd wedi'i gyhoeddi, gan yr Athro Mark Barry: 'Y Rhwydwaith Rheilffyrdd yng Nghymru – Yr Achos dros Fuddsoddi' a'r cynigion ynddo i wella y seilwaith rheilffyrdd yng Nghymru a'r prif reilffyrdd sy'n gwasanaethu Cymru.

3. Yn cefnogi ymateb Llywodraeth Cymru i Adolygiad Rheilffyrdd Llywodraeth y DU sy'n cael ei gynnal gan Keith Williams.

4. Yn credu bod buddsoddi mewn seilwaith rheilffyrdd strategol yn hanfodol i ba mor gystadleuol fydd Cymru yn y dyfodol, waeth ar ba delerau y byddwn yn ymadael â'r UE, ac yn galw ar Lywodraeth y DU i ddatblygu amserlen ar gyfer bodloni ei rhwymedigaethau cyfredol ar gyfer y Rhwydwaith Trafnidiaeth Traws Ewropeaidd, gan gynnwys trydaneiddio prif reilffyrdd Gogledd a De Cymru yn llawn.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwellaint 1** – Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Dileu pwynt 1.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 9 | 3 | 31 | 43 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwellaint 2** – Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ym mhwynt 1, dileu 'siomedig yn y' a rhoi yn ei le 'condemnio'r'.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| 30 | 0 | 13 | 43 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Gwellaint 3** - Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Mewnosod ar ddiwedd pwynt 1:

', gan gydnabod bod Cymru'n llusgo ar ôl gweddill y DU yn ddifrifol, o ran buddsoddi mewn seilwaith trafnidiaeth.'

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 4 | 4 | 36 | 44 |

**Gwrthodwyd gwelliant 3.**

**Gwellaint 4** - Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Mewnosod ar ddiwedd pwynt 2:

'ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithredu'r argymhellion, gyda phwyslais ar gysylltu'r gogledd a'r de drwy ail-agor rheilffyrdd y gorllewin.'

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 7 | 9 | 27 | 43 |

**Gwrthodwyd gwelliant 4.**

**Gwellaint 5** - Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Dileu pwynt 3.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 9 | 3 | 31 | 43 |

**Gwrthodwyd gwelliant 5.**

**Gwellaint 6** – Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Dileu popeth ar ôl 'UE' ym mhwynt 4 ac ychwanegu pwyntiau newydd:

Yn gresynu at berfformiad gwael diweddar gwasanaethau rheilffyrdd, gan gynnwys oedi mynych a chanslo teithiau, a weithredir gan Trafnidiaeth Cymru ers dod yn gyfrifol am wasanaethau ar fasnachfraint Cymru a'r Gororau.

Yn gresynu at yr oedi wrth ail-sefydlu gwasanaethau rheilffordd uniongyrchol rhwng Cymru a Lerpwl.

Yn nodi'r rôl y gall Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru ei chwarae wrth helpu i lunio gweledigaeth ar gyfer seilwaith rheilffyrdd Cymru.

Yn nodi maint y cyfraniad y bydd bargeinion dinas a bargeinion twf Llywodraeth y DU yn eu gwneud.

Yn annog Llywodraeth Cymru i gydweithio â Llywodraeth y DU a'r holl randdeiliaid perthnasol er mwyn parhau i wneud cynnydd o ran gwella gwasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 6:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 12 | 0 | 31 | 43 |

**Gwrthodwyd gwelliant 6.**

**Gwellaint 7** – Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi pwysigrwydd datgarboneiddio trafnidiaeth gyhoeddus ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymrwymo i ddulliau adnewyddadwy o bweru trafnidaieth gyhoeddus.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 7:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 39 | 4 | 1 | 44 |

**Derbyniwyd gwelliant 7.**

**Gwellaint 8** – Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw am ffocws o'r newydd gan Lywodraeth Cymru ar weithio tuag at ailagor rheilffordd Gaerwen i Amlwch ar draws Ynys Môn yng ngoleuni cyhoeddiadau economaidd diweddar sy'n peri pryder.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 8:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 13 | 3 | 27 | 43 |

**Gwrthodwyd gwelliant 8.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd:**

**NDM6954** – Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn condemnio'r yn y tanfuddsoddi hanesyddol gan Lywodraeth y DU yn seilwaith rheilffyrdd Cymru a chyfleoedd a gollwyd yn ddiweddar i wella capasiti y seilwaith strategol yng Nghymru.

2. Yn tynnu sylw at y gwaith, sydd wedi'i gyhoeddi, gan yr Athro Mark Barry: 'Y Rhwydwaith Rheilffyrdd yng Nghymru – Yr Achos dros Fuddsoddi' a'r cynigion ynddo i wella y seilwaith rheilffyrdd yng Nghymru a'r prif reilffyrdd sy'n gwasanaethu Cymru.

3. Yn cefnogi ymateb Llywodraeth Cymru i Adolygiad Rheilffyrdd Llywodraeth y DU sy'n cael ei gynnal gan Keith Williams.

4. Yn credu bod buddsoddi mewn seilwaith rheilffyrdd strategol yn hanfodol i ba mor gystadleuol fydd Cymru yn y dyfodol, waeth ar ba delerau y byddwn yn ymadael â'r UE, ac yn galw ar Lywodraeth y DU i ddatblygu amserlen ar gyfer bodloni ei rhwymedigaethau cyfredol ar gyfer y Rhwydwaith Trafnidiaeth Traws Ewropeaidd, gan gynnwys trydaneiddio prif reilffyrdd Gogledd a De Cymru yn llawn.

5. Yn nodi pwysigrwydd datgarboneiddio trafnidiaeth gyhoeddus ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymrwymo i ddulliau adnewyddadwy o bweru trafnidaieth gyhoeddus.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 35 | 0 | 9 | 44 |

**Derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd.**

## 6 Cyfnod pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 17.10

## Crynodeb o Bleidleisiau

Daeth y cyfarfod i ben am 17.14

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 6 Chwefror 2019**